## Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru

**Cyfarfod hybrid - drwy Microsoft Teams / Ystafell Amroth, Parc Cathays 2, Caerdydd, CF10 3NQ**
**Dydd Llun 18 Rhagfyr 2023**

## Cofnodion

### Yn bresennol

| | |
|---|---|
| Jane Hutt AS | Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip (Cadeirydd) |
| Lynne Neagle AS | Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant |
| David TC Davies | Ysgrifennydd Gwladol Cymru |
| Pam Kelly | Prif Gwnstabl Heddlu Gwent |
| Jeremy Vaughan | Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru |
| Amanda Blakeman | Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru |
| Ifan Charles | Prif Gwnstabl Cynorthwyol Heddlu Dyfed Powys |
| Dafydd Llywelyn | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys |
| Andy Dunbobbin | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Alun Michael | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Eleri Thomas | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Wayne Jones | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Emma Wools | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Umar Hussain | Prif Swyddog Ariannol Heddlu De Cymru (Cyflwynydd) |
| Gary Haggaty | Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru |
| Judith Cole | Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd, Llywodraeth Cymru |
| Lucy Akhtar | Uwch-reolwr, y Tîm Troseddu a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Leanne Lewis | Y Tîm Troseddu a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Jenny Hopkins | Prif Erlynydd y Goron, Gwasanaeth Erlyn y Goron |
| Tracy Cooper | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Joanne Hopkins | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Wendy Williams | Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS) (Cyflwynydd) |
| Chris Batchelor | Dirprwy Gyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Ymgysylltu a Strategaeth Ryngwladol a Domestig, y Swyddfa Gartref |
| Achille Versaevel | Uwch-reolwr Portffolio, Tîm y Swyddfa Gartref yng Nghymru (Arsylwr) |
| Gregg Dyer | Pennaeth Materion Domestig, Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru |
| Ian Barrow | Cyfarwyddwr Gweithredol Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi |
| Mark Brace | Pennaeth Interim y Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel, CLlLC |
| Lee Jones | Prif Weithredwr, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Stephen Hughes | Prif Weithredwr, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Paul Morris | Pennaeth Uned Gyswllt yr Heddlu |
| Christina Fraser | Prif Arolygydd, Uned Gyswllt yr Heddlu |
| Ian Roberts | Prif Uwch-arolygydd, Arweinydd Gwrth-hiliaeth a VAWDASV, Plismona yng Nghymru |
| Sarah Keefe | Rheolwr Polisi Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu Cymru, Uned Gyswllt yr Heddlu |
| Asif Afsar | Cydlynydd Busnes Cymru Gyfan, Plismona yng Nghymru |
| Joanna Huddleston | Gweinyddydd, Uned Gyswllt yr Heddlu |

### Ymddiheuriadau

| | |
|---|---|
| Jeff Cuthbert | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Dr. Richard Lewis | Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys |
| Mick Antoniw AS | Cwnsler Cyffredinol Cymru, Llywodraeth Cymru |
| Naomi Alleyne | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, CLlLC |
| Carys Morgans | Prif Weithredwr, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys |
| Judith Paget | Cyfarwyddwr Cyffredinol HSSG, Prif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru |

## 1. Gair o Groeso ac Anerchiad gan y Cadeirydd

Agorodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip y cyfarfod gan nodi bod y protocolau arferol ar waith ar gyfer cyfarfod hybrid. Croesawodd Ian Barrow, gan ychwanegu mai hwn oedd ei gyfarfod cyntaf fel Cyfarwyddwr Gweithredol Cymru ar gyfer Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi. Hefyd, esboniodd y Cadeirydd mai hwn oedd cyfarfod olaf y Prif Gwnstabl Lewis fel Prif Gwnstabl Arweiniol Cymru a nododd, er nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod heddiw, ei bod am ddiolch iddo am ei waith partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru a Plismona yng Nghymru dros y flwyddyn ddiwethaf. Ychwanegodd ei bod yn falch y bydd y Prif Gwnstabl Kelly yn ymgymryd â rôl Prif Gwnstabl Arweiniol Cymru y flwyddyn nesaf.

## 2. Gair o Groeso a Sylwadau gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Ymddiheurodd David TC Davies AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, nad oedd yn gallu siarad am ei fod ar drên a oedd yn hwyr. Er nad oedd yn gallu cyfrannu, am resymau cyfrinachedd, dywedodd Mr Davies y byddai'n gwrando ar y trafodaethau.

## 3. Sefyllfa Ariannol Plismona yng Nghymru
### Risg/Gwydnwch Ariannol heddluoedd Cymru a chyfraniadau ariannu Plismona yng Nghymru

Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem ac esboniodd y byddai Mr Hussain, Prif Swyddog Ariannol Heddlu De Cymru, yn rhoi diweddariad ar y pwnc hwn. Agorodd Mr Hussain y drafodaeth drwy nodi bod Setliad yr Heddlu wedi cael ei gyhoeddi ers y diweddariad diwethaf ar yr Asesiad Cenedlaethol o Gyllid Heddluoedd, ac y byddai'r diweddariad felly'n ymdrin â'r heriau sy'n wynebu Plismona yng Nghymru yn y dyfodol.

Disgrifiodd Asesiad y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o Chwyddiant a nododd er mai tua 11% oedd y gyfradd chwyddiant uchaf yn yr asesiad yn 2023, amcangyfrifir y byddai'r ffigur yn ôl i darged Banc Lloegr, sef tua 2%, gobeithio.

Cyfeiriodd Mr Hussain at effaith gronnol chwyddiant gan nodi, er bod y gyfradd chwyddiant yn gostwng, mae'r effaith gronnol yn parhau i gynyddu. Nododd y byddai chwyddiant cronnol yn 20% rhwng 2022 a 2025, a bod disgwyl i nwyddau a gwasanaethau godi o flwyddyn i flwyddyn hyd at 2029, lle bydd y ffigur yn cyrraedd bron 30% er y bydd y gyfradd chwyddiant wedi sefydlogi. Ychwanegodd mai chwyddiant sy'n cael yr effaith fwyaf ar gostau plismona yn ogystal â galw a buddsoddi mewn seilwaith.

Rhoddodd Mr Hussain grynodeb o setliad yr heddlu a gyhoeddwyd ar 14 Rhagfyr 2023 a dywedodd fod y mwyafrif o'r grant yn cwmpasu'r dyfarniad cyflog i Swyddogion a Staff yr Heddlu, y cytunwyd y byddai'n 7% y flwyddyn o fis Medi 2023 i fis Awst 2024. Nododd y bu cynnydd gorfodol o 4.4% yng Nghyfraniad Pensiwn Swyddogion yr Heddlu y mae'n ofynnol ei fodloni. Dywedodd fod y cyfraniad blynyddol at Bensiwn Swyddogion yr Heddlu yn nesáu at 35%, ond mae'r Trysorlys wedi gallu ariannu'r mwyafrif o'r cyfraniad.

Esboniodd nad oes unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer dyfarniadau cyflog a chwyddiant contractau yn y dyfodol ond nododd y byddai cyllid yn parhau ar gyfer yr ymgyrch recriwtio. Nododd fod cyllid ar gyfer yr ymgyrch recriwtio wedi'i glustnodi sy'n golygu bod gofyn i heddluoedd fodloni meini prawf penodol gan y gall methu â bodloni'r rhain arwain at gosbau ariannol sylweddol. Dywedodd Mr Hussain fod diffyg o £0.5m ar gyfer cyllid yr heddlu yn dilyn cyhoeddiad y setliad, yn ogystal â'r ffaith nad oedd cyllid cyfalaf o hyd. Esboniodd fod gan dri heddlu'r rhanbarth deheuol ymrwymiad sylweddol mewn perthynas â'r Maes Saethu Arfau Tanio ar y Cyd, sy'n costio oddeutu £60m. Pwysleisiodd ei bod yn ofyniad plismona statudol i hyfforddi swyddogion i safon ddigonol fel y gallant ddefnyddio arfau tanio. Nododd Mr Hussain y byddai angen benthyciad ychwanegol i heddluoedd liniaru'r diffyg grantiau yn seiliedig ar chwyddiant.

Disgrifiodd Mr Hussain y gwaith cysoni lefel uchel mewn perthynas â setliad yr heddlu gan nodi bod

cynnydd mewn cyllid o £954m. Bydd y cynnydd yn cwmpasu costau'r Cyfraniad Pensiwn ac, er bod y cyllid ar gyfer yr ymgyrch recriwtio wedi cynyddu tua £150m, mae'n debyg y byddai'r gost wirioneddol yn agosach i £164m oherwydd costau cyfarpar ac ati. Felly nid yw'n credu bod hyn yn ddigonol i gwmpasu'r nifer a glustnodwyd o swyddogion yr heddlu i'w recriwtio. Esboniodd er bod y £515m wedi'i gyfrannu fel setliad ychwanegol ar gyfer Plismona, mae'n debygol y byddai'r gost wirioneddol yn agosach at £630m gan nad oes unrhyw gyllid ychwanegol ac felly byddai'n arwain at ddiffyg o £513m.

Nododd Mr Hussain mewn perthynas â'r Praesept cyfatebol ar eiddo Band D, nid yw pob eiddo Band D yn gyfartal gan fod y sylfaen drethu yn wahanol rhwng Cymru a Lloegr yn ogystal â rhwng heddluoedd yng Nghymru a Lloegr. Codir symiau sylweddol is yng Nghymru o gymharu â Lloegr ar yr un faint o gynnydd yn y dreth gyngor sy'n golygu bod yn rhaid i heddluoedd Cymru roi mesurau ychwanegol ar waith o ran cynnal cydraddoldeb.

Rhoddodd enghraifft o gyllidebau nodweddiadol yr heddlu ac amlinellodd y ffaith fod 51% o'r gyllideb ar swyddogion yr heddlu fel arfer, caiff 22% ei wario ar staff yr heddlu a 4% ar Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Fel rheol, caiff y 23% sy'n weddill ei wario ar nwyddau a gwasanaethau a gwasanaethau dan gontract. Nododd nad oes llawer y gellir ei wneud o ran gwneud arbedion gyda chontractau gan fod contractau aml-flwyddyn ar waith. Ar ôl 13 blynedd o ostyngiadau dilynol mewn cyllid plismona, mae cryn fesurau i arbed digonolrwydd eisoes wedi cael eu rhoi ar waith mewn perthynas ag ymrwymiadau angenrheidiol, megis fflyd, cyfrifiaduron ac ati, y mae'n rhaid eu cynnal. Dywedodd Mr Hussain fod Staff yr Heddlu yn un maes y gellid ei adolygu. Mae gostyngiadau sylweddol eisoes wedi'u gwneud yn hyn o beth ledled Cymru a Lloegr ac mae 70% o Staff yr Heddlu yn uniongyrchol gysylltiedig â darparu gwasanaethau rheng flaen, megis Ystafelloedd Rheoli a'r Gadwyn Dystiolaethol, gan gynnwys paratoi Ffeiliau Achos a Gwyddorau Fforensig. Esboniodd fod y niferoedd eisoes yn isel a bod 1500 o swyddi gwag ym mis Mawrth 2023, a fydd yn codi i 5000 erbyn mis Mawrth 2025, a bydd Staff yr Heddlu sy'n weddill yn angenrheidiol er mwyn cynnal plismona rheng flaen. Dywedodd Mr Hussain fod rhai heddluoedd yng Nghymru yn y categori Risg Uchel, Gwydnwch Isel gan fod ganddynt gronfeydd wrth gefn isel, llawer o ddyledion, bwlch mawr yn y gyllideb a ffactor swyddi gwag uchel.

Nododd Mr Hussain, wrth edrych tua'r dyfodol, fod y Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi adolygu'r gyllideb bresennol a datganiad yr hydref ac mai ei asesiad yw y byddai gostyngiad o 3.4% mewn adrannau heb eu diogelu erbyn 2029, a bod plismona yn rhan o hyn. Ychwanegodd mai'r unig ffordd o wrthdroi'r dirywiad hwnnw fyddai dod o hyd i werth £20bn o gyllid ychwanegol ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus.

**3.1.** Diolchodd y Cadeirydd i Mr Hussain am wneud y gwaith hwn i adlewyrchu'r amrywiaeth o heriau sy'n wynebu Heddluoedd yng Nghymru. Nododd fod disgwyl i gyllideb Llywodraeth Cymru gael ei chyhoeddi y diwrnod canlynol a fydd yn adlewyrchu'r heriau hyn a'r camau a gymerir i ddiogelu cymunedau Cymru yn wynebu pwysau digynsail. Diolchodd i Swyddogion yr Heddlu am y gwaith y maent yn ei wneud sy'n helpu i gadw cymunedau yn ddiogel. Cynigiodd y Cadeirydd i'r Prif Gwnstabliaid neu Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ddarparu diweddariadau neu sylwadau pellach ar y mater hwn.

**3.2**. Roedd y Prif Gwnstabl Kelly yn teimlo bod angen canolbwyntio ar flaenoriaethau yn ogystal â gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill am nad yw'n bosibl i Plismona yng Nghymru fynd i'r afael â phopeth. Tynnodd sylw at y blaenoriaethau o safbwynt plismona, megis achub bywydau, atal a chanfod troseddau a gofalu am ddioddefwyr, ond cydnabu fod y gwaith atal yn hanfodol ar gyfer plismona er mwyn sicrhau bod cymunedau yn parhau i fod yn ddiogel.

Dywedodd fod atal problemau yn well nag ymateb i broblemau gan y byddai hyn yn arwain, fel arall, at ormod o waith i Wasanaethau Cyhoeddus a gormod o broblemau i ymdrin â nhw. Dywedodd fod angen i asiantaethau gydweithio a phenderfynu ar eu blaenoriaethau gyda'i gilydd wrth fod yn dryloyw o hyd. Mynegodd bryderon am y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer rolau Staff yr Heddlu hefyd, megis Ymchwilwyr i Achosion o Dwyll a Fforenseg Ddigidol, a dywedodd y gellid colli'r rolau hyn os na fydd y sector

plismona yn canolbwyntio ar ei flaenoriaethau. Awgrymodd fod angen ailwerthuso ac ailystyried y ffordd y mae asiantaethau yn cydweithio mewn ffordd wybodus heb beri risg i gymunedau.

**3.3.** Pwysleisiodd y Comisiynydd Michael bwysigrwydd cydweithio, fel y nododd y Prif Gwnstabl Kelly, a dywedodd y gall gweithio mewn seilos arwain at ganlyniadau anfwriadol. Rhoddodd y cyfnod o gyni yn 2013 fel enghraifft a arweiniodd at blismona yn peidio â chyfrannu at ddiogelwch cymunedol, yn ogystal â phlismona ac Awdurdodau Lleol yn tynnu cyfraniadau ar gyfer dadansoddeg yn ôl ac, o ganlyniad, diflannodd y sylfaen dystiolaeth. Nododd fod llawer o waith wedi'i golli yn ystod y cyfnod hwnnw ond sydd wedi'i adennill ers hynny, gan dynnu sylw at yr holl waith y bu'n rhaid ei wneud er mwyn cyflawni hyn. Mae'n awyddus i sicrhau nad yw hyn yn digwydd eto. Cydnabu'r Comisiynydd Michael y gall fod yn anodd cynnal trefniadau cydweithio gan fod prinder capasiti dros ben. Fodd bynnag, mae cryn ymrwymiad o fewn Plismona i ddefnyddio dull Iechyd y Cyhoedd. Pwysleisiodd fod angen safbwynt cyfunol ar gyfer hyn a chytuno i ymrwymiadau ar y cyd yn yr hirdymor.

**3.4.** Cytunodd y Cadeirydd â'r pwynt ynglŷn â chanolbwyntio ar flaenoriaethau, gan nodi y bydd llawer o waith na fydd modd ei gwblhau. Fodd bynnag, cydnabu fod gwaith atal yn hanfodol ac ychwanegodd mai gweithio mewn partneriaeth a chydweithio yw'r ffordd o weithio'n llwyddiannus yng Nghymru.

**3.5.** Ategodd y Comisiynydd Llywelyn bwynt y Comisiynydd Michael ynglŷn â gweithio mewn partneriaeth. Mae'n teimlo'n gadarnhaol o ran y cyfleoedd a allai ddeillio o ganlyniad i'r pwysau hyn o safbwynt sbarduno trafodaethau ynghylch y sector ymchwil neu addysg uwch ac addysg bellach i gefnogi mewn ffordd ymarferol a gwneud iawn am niferoedd cyfyngedig o Staff yr Heddlu. Ychwanegodd ei fod am ofyn am gymorth mewn perthynas â'r Uned Arfau Tanio ar y Cyd gan fod llawer o gynrychiolwyr yn y cyfarfod. Esboniodd y Comisiynydd Llywelyn y bydd yr Uned yn costio rhwng £50m a £60m i Heddluoedd y Rhanbarth Deheuol. Dywedodd nad yw'r arian ar gael gan heddluoedd ac felly y bydd yn rhaid iddynt droi at fenthyca er mwyn ariannu'r buddsoddiad hwnnw sy'n datblygu seilwaith allweddol er diogelwch cymunedau yng Nghymru yn ogystal â chyfrannu at blismona Gwrthderfysgaeth, a all weithredu ar lefel genedlaethol os bydd angen. Roedd yn bwriadu gwneud sylwadau ar y cyd i'r Swyddfa Gartref, a'r Trysorlys o bosibl, i ariannu rhywfaint o hyn yn uniongyrchol a chefnogi heddluoedd Cymru gyda'r buddsoddiad hwn mewn seilwaith.

**3.6.** Diolchodd y Cadeirydd i'r Comisiynydd Llywelyn am ei fewnbwn a nododd fod plismona mewn sefyllfa wahanol gan ei fod wedi profi 13 blynedd o gyni, gan nodi ei bod yn anodd iawn dod o hyd i ffyrdd ychwanegol o reoli'r sefyllfa a gwneud yr holl arbedion posibl er mwyn diwallu anghenion cymunedau.

**3.7.** Nododd y Prif Gwnstabl Blakeman fod Heddlu Gogledd Cymru yn wynebu heriau tebyg, yn enwedig mewn perthynas â seilwaith lle mae buddsoddiad cyfalaf yn ofynnol, yn ogystal â'r trefniadau Arfau Tanio gyda rhanbarth Gogledd-orllewin Lloegr, a dywedodd fod heriau yng Ngogledd Cymru gyda chostau sylweddol hefyd.

**3.8.** Gwnaeth y Cadeirydd grynhoi drwy nodi bod pob Gwasanaeth Cyhoeddus yn ceisio gweithio drwy gyfnod anodd a bod angen mynd i'r afael â'r mater mewn ffordd adeiladol, gan nodi ei bod yn awyddus i Lywodraeth Cymru weithio gyda Plismona yng Nghymru pan gaiff y gyllideb ddrafft ei chyhoeddi er mwyn ymdrin ag unrhyw oblygiadau.

**4. Diweddariadau ar waith y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth**

**4.1.** Dywedodd y Prif Gwnstabl Kelly ei bod yn falch o'r gwaith sy'n mynd rhagddo yng Nghymru gyda phartneriaid Cyfiawnder Troseddol i gefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i fod yn wlad wrth-hiliol erbyn 2030. Dywedodd y bydd y Prif Uwch-arolygydd Roberts yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith y mae Plismona yng Nghymru wedi llwyddo i'w gyflawni a'r blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol. Byddai'r Arolygydd Williams yn rhoi trosolwg o'r gwaith y mae Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi wedi bod yn canolbwyntio arno hefyd mewn perthynas â'r gwaith gwrth-hiliaeth ac esboniodd fod Plismona yng Nghymru wedi bod yn monitro Cynllun Gwrth-hiliaeth Cyngor Cenedlaethol

Prif Swyddogion yr Heddlu ond yn teimlo bod y gwaith sy'n mynd rhagddo yng Nghymru yn fwy datblygedig.

**4.2.** Dywedodd y Prif Uwch-arolygydd Roberts y byddai'r diweddariad yn seiliedig ar ychydig feysydd allweddol ac esboniodd fod Plismona yng Nghymru wedi'i rannu'n dair lefel wahanol o weithgarwch;

- Y gwaith y mae Prif Gwnstabliaid yn ei wneud yn eu heddluoedd gan eu bod yn atebol i'w cymunedau lleol drwy Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.
- Gweithio ar draws plismona yng Nghymru i sicrhau bod dull cyson a chydlynol o ymdrin â materion allweddol.
- Y gwaith a gaiff ei wneud ar lefel Cyfiawnder Troseddol.

Esboniodd fod rhywfaint o'r ffocws dros y 12 mis diwethaf wedi bod ar addysgu'r gweithlu Plismona yng Nghymru er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff wedi ymwneud â rhyw fath o addysg gwrth-hiliaeth. Ychwanegodd fod rhaglen barhaus i ddatblygu opsiynau cynaliadwy yn y dyfodol oherwydd y sefyllfa ariannol y mae plismona yn ei hwynebu. Aeth y Prif Uwch-arolygydd Roberts ymlaen i ddweud bod gwaith wedi'i wneud ar wella data hefyd gan eu bod yn helpu i ddeall sut y defnyddir pwerau'r heddlu ac yn helpu i feithrin dealltwriaeth o anghymesuredd. Tynnodd sylw at y gwaith ymgysylltu y mae timau cymdogaeth wedi bod yn ei wneud, gan nodi ei fod o'r farn bod angen ymgysylltu ar bob lefel.  O ganlyniad, mae Prif Swyddogion yn gwneud gwaith i feithrin cydberthnasau â chymunedau a all fod â diffyg hyder mewn plismona mewn perthynas â materion fel gwrth-hiliaeth.

**4.3.** Esboniodd y Dirprwy Gomisiynydd Wools y bydd yn rhoi diweddariad ar rai o'r pwyntiau allweddol o'r cynllun gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol. Dywedodd fod llawer o waith wedi'i wneud mewn perthynas â diweddaru llywodraethu gyda'r nod o gyflwyno arbenigwyr ychwanegol â phrofiad bywyd a sicrhau bod yr unigolion hynny â phrofiad bywyd yn cael eu clywed, fel y nodir yn ymrwymiadau'r cynllun. I gefnogi hynny, mae grŵp o arbenigwyr pwnc wedi ymuno o Grŵp Atebolrwydd Allanol Llywodraeth Cymru er mwyn cael cysylltiad rhwng dau gynllun. Hefyd, o ran llywodraethu, ychwanegodd y Dirprwy Gomisiynydd Wools fod Cadeiryddion Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol wedi dechrau integreiddio'r ymrwymiadau a'r gweithgareddau gwrth-hiliaeth, a fydd yn pennu'r camau y mae angen eu cymryd o ran eu hardaloedd lleol unigol yn ogystal ag ystyried y trefniadau llywodraethu mewn perthynas â Rhaglen Newid y Bartneriaeth. Nododd y Dirprwy Gomisiynydd Wools fod angen i ymarfer gwrth-hiliaeth fod wrth wraidd y penderfyniadau ynghylch polisi neu ymarfer newydd a rhoddodd enghraifft o sut mae hyn wedi cael ei gyflawni gyda'r Glasbrintiau Cyfiawnder Ieuenctid, Menywod a VAWDASV. Nododd fod addysg a hyfforddiant wedi bod yn sail i'r hyn y mae sefydliadau wedi bod angen ei wneud i symud ymlaen, gan ychwanegu y bydd y rhaglen yn treialu rhaglen hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol ar gyfer gwrth-hiliaeth. Caiff hyn ei werthuso'n annibynnol gan fod arolygiad HMICFRS wedi nodi nad oedd llawer o'r gwaith cyflawni hwn wedi'i werthuso a bod angen deall ei werth a'i effaith.

Ychwanegodd y Dirprwy Gomisiynydd Wools y caiff adroddiad ar anghymesuredd yn y system gyfan ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2024 ac esboniodd fod llawer o anawsterau wedi codi ar draws y system mewn perthynas â data. Nododd y cafwyd trafodaeth strategol am ddata yng nghyfarfod diwethaf Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru gan mai'r gobaith yw dechrau cyhoeddi data ystyrlon. Fodd bynnag, mae rhwystrau i hyn mewn perthynas â rhannu gwybodaeth ac ansawdd data ac mae'n gobeithio y bydd newid yn hyn o beth yn ystod y 3-6 mis nesaf. Mewn perthynas â'r nod o fynd i'r afael ag anghymesuredd, datblygwyd cynnig i gynnal archwiliad systemig o bolisïau a phrosesau gan ddefnyddio cyngor gan yr Athro Ogbonna. Dywedodd y Dirprwy Gomisiynydd Wools y caiff cynllun peilot ei gynnal gyda ffocws cychwynnol ar recriwtio a chadw a gyda'r nod o roi hynny ar waith ym mhob polisi ac arfer o fewn y System Cyfiawnder Troseddol.

**4.4.** Ychwanegodd y Prif Gwnstabl Kelly mai un budd sylweddol yw nad oes unrhyw gost i Plismona yng Nghymru gan fod hyn yn ymrwymiad ar draws pob cymuned a sefydliad. Gan fod etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ar y gweill, nododd nad oes ots pwy sy'n arwain gan fod partneriaid Cyfiawnder Troseddol wedi ymrwymo i gael dull gweithredu gwrth-hiliaeth yng Nghymru.

**4.5.** Nododd yr Arolygydd Williams ei bod yn falch o gael gwahoddiad i drafod y gwaith y mae plismona yn ei wneud mewn perthynas â Hil a Phlismona ac esboniodd y bydd yn trafod dau arolygiad thematig, sef Hil a Plismona Un a Dau. Canfu Hil a Phlismona Un fod hyder yn yr heddlu ymhlith llawer o gymunedau ethnig leiafrifol yn parhau i fod yn hynod o isel o gymharu â chymunedau eraill, er gwaethaf ymdrechion y sector plismona, y llywodraeth a sefydliadau eraill. Esboniodd fod rhaglen Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd a Dilysrwydd yr Heddlu (PEEL) yn rhaglen dreigl sy'n arolygu'r 43 o Heddluoedd yn y DU mewn perthynas â Stopio a Chwilio, y defnydd o rym a materion yn ymwneud â'r gweithlu ehangach. Mae'r rhaglen wedi bod ar waith ers 2014 felly, o safbwynt arolygiadau HMICFRS, cytunwyd bod angen gwneud gwaith pellach a dechreuwyd y gwaith hwn yn 2021. Archwiliodd yr Arolygiad Thematig cyntaf arweinyddiaeth a llywodraethu drwy ystyried y fframwaith cyffredinol sy'n bodoli mewn perthynas â hil a phlismona, gyda'r nod o asesu hyn. Nododd fod adolygiadau niferus wedi'u cynnal sydd wedi arwain at argymhellion ond na chafwyd ymateb cydgysylltiedig i ymdrin â nhw ac, o ganlyniad, mae plismona wedi'i chael hi'n anodd cydgrynhoi'r argymhellion yn gasgliad unigol o weithgarwch gwella y cytunwyd arno. Roedd HMICFRS yn teimlo bod angen gwneud llawer mwy o waith o fewn Plismona gan fod llawer o Arweinwyr Plismona Cenedlaethol ond mae diffyg eglurder o ran atebolrwydd ac felly pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod plismona yn gwneud y newid sylweddol ar y cyd sydd ei angen er mwyn sicrhau'r gwelliannau gofynnol. Argymhellodd HMICFRS y dylai plismona ddatblygu Safonau Cenedlaethol clir ar hyfforddiant Gwrth-hiliaeth i holl Swyddogion a Staff yr Heddlu.

Nododd yr Arolygydd Williams bod y diffyg data cywir wedi bod yn nodwedd yn llawer o arolygiadau HMICFRS ac, o ganlyniad i hyn, nid oes dealltwriaeth glir o'r data sy'n golygu nad yw plismona mewn sefyllfa i nodi'n glir sut mae'n perfformio a ble mae'n perfformio'n dda. Mae HMICFRS felly wedi cynnal 30 o arolygiadau ers 2017 ac, o'r arolygiadau hyn, mae wedi cyhoeddi 10 argymhelliad yn ystod y cyfnod hwnnw. Nododd yr Arolygydd Williams nad yw'r sefyllfa wedi gwella o ganlyniad i hyn gwaetha'r modd. Mae HMICFRS wedi gwneud 4 argymhelliad a'r gofyniad pwysicaf yw y dylai'r Coleg Plismona sefydlu safonau cenedlaethol ar gyfer hyfforddiant yr Heddlu ar Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiant ac, erbyn mis Ebrill 2024, y dylai Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu roi atebion technolegol a hyfforddiant sydd eu hangen ar waith ar y cyd er mwyn sicrhau bod heddluoedd yn cofnodi ac yn rhannu gwybodaeth am nodweddion gwarchodedig yn gyson, yn enwedig hil.

Esboniodd yr Arolygydd Williams fod Hil a Phlismona Dau wedi ystyried gwahaniaethau ar sail hil mewn perthynas â chanlyniadau Cyfiawnder Troseddol gyda'r nod o ystyried pa mor dda y mae heddluoedd yn casglu, yn dadansoddi ac yn cyhoeddi data ar wahaniaethau ar sail hil. Disgrifiodd y canfyddiadau allweddol a nododd na fu arweinyddiaeth ddigonol gan Adrannau'r Llywodraeth Ganolog nac Uwch-swyddogion yr Heddlu ar wahaniaethau ar sail hil mewn perthynas â gwneud penderfyniadau Cyfiawnder Troseddol ac, yn y rhan fwyaf o heddluoedd, ni wnaed gwaith i geisio deall y rhesymau dros hyn. Yn ogystal, dangosodd data'r Llywodraeth fod pobl Ddu dair gwaith yn fwy tebygol o gael eu harestio na phobl Wyn. Canfu dadansoddiad HMICFRS o'r achosion hyn wahaniaethau amlwg rhwng profiadau grwpiau gwahanol a oedd yn ddarostyngedig i benderfyniadau Cyfiawnder Troseddol yn dibynnu ar eu hethnigrwydd. Nododd yr Arolygydd Williams fod rhai arferion da wedi'u nodi ymhlith heddluoedd Cymru, fel y crybwyllwyd gan y Dirprwy Gomisiynydd Wools a'r Prif Gwnstabl Kelly mewn perthynas â'r gwaith sydd wedi'i wneud. Nododd HMICFRS fod y gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd yng Nghymru yn enghraifft o ymarfer cadarnhaol oherwydd bod Llywodraeth Cymru a chyrff eraill wedi cytuno i ddefnyddio Dull Un Gwasanaeth Cyhoeddus o hyrwyddo cydraddoldeb hil ledled Cymru. Mae'r Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth a luniwyd o ganlyniad i hyn yn dangos bwriad pendant. Mae HMICFRS yn gobeithio y gall Plismona yng Nghymru gynnig arferion da i Blismona yn y DU, ond pwysleisiodd fod angen gwneud llawer mwy o waith.

**4.6.** Nododd y Dirprwy Gomisiynydd Thomas er bod llawer o gynnydd wedi'i wneud mewn perthynas â'r Cynlluniau Gweithredu Gwrth-hiliaeth, mae llawer o waith i'w wneud o hyd mewn perthynas â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr o safbwynt Plismona yn ogystal ag o safbwynt Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol. Diolchodd i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip am ei chefnogaeth yn

y maes hwn. Pwysleisiodd rôl Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru o ran cefnogi gwaith y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol ar yr heriau sy'n cael eu nodi, yn ogystal â rhai o'r canfyddiadau yn adroddiad Comisiynydd Plant Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar ynglŷn â hiliaeth mewn ysgolion a sut i gydweithio, yn enwedig ar gyfer Plant Du ac Ethnig Leiafrifol mewn ysgolion.

**4.7.** Nododd y Comisiynydd Michael na ddylid tanbrisio pa mor anodd yw cyflawni canlyniadau. Dywedodd fod cydberthnasau yn allweddol er mwyn gwneud cynnydd nad yw ond yn ymwneud â bod yn flaenoriaeth sefydliadol, mae'n ymwneud â'r bobl a'r arweinwyr cysylltiedig hefyd. Dywedodd fod yr heddlu yn dda am osod blaenoriaeth a cheisio ei chyflawni ond ychwanegodd pan fydd gan gyrff eraill fel Gwasanaeth Erlyn y Goron a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yr un flaenoriaeth, dyna pryd rydym yn debygol o wneud gwahaniaeth, gan fod hyn yn mynd y tu hwnt i blismona yn unig.

**4.8.** Diolchodd y Cadeirydd i'r grŵp am ymgysylltu â'r pwnc hwn a nododd ei bod yn teimlo bod Llywodraeth Cymru a'r sector Cyfiawnder Troseddol yn ymateb i argymhellion HMICFRS. Mae'n teimlo bod angen ymdrin â mater data ar y lefel uchaf ac ychwanegodd fod craffu drwy'r Grŵp Atebolrwydd Allanol yn hanfodol i wneud hyn. Nododd fod y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn adolygu'r Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth, gan ychwanegu fod un o'r unigolion a roddodd dystiolaeth wedi dweud bod 80% o'r gwaith yn ymwneud â newid diwylliannol yn hytrach nag adnoddau, felly mae'n ymwneud â newid y ffordd y caiff y gwaith hwn ei wneud ac mae'r Dull Un Gwasanaeth Cyhoeddus yn hanfodol i hyn.

**5. Adolygiad Cyflym o Ymarfer sy'n Ystyriol o Drawma ac Atal**

Disgrifiodd Joanne Hopkins gefndir yr adolygiad cyflym drwy esbonio mai'r Rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd oedd rhaglen amlasiantaethol plismona a phartneriaid i ysgogi dealltwriaeth mewn perthynas â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a Dull Plismona Ystyriol o Drawma mewn partneriaeth â sefydliadau eraill yng Nghymru. Ychwanegodd eu bod wedi parhau i weithio ar y diffiniad o Ddull Ystyriol o Drawma ers y rhaglen honno a bod darn o waith wedi'i gynnal gyda lansiad y Fframwaith Ystyriol o Drawma, a arweiniwyd gan Hyb ACE Cymru a Straen Trawmatig Cymru, er mwyn deall y ffordd y mae'r rhaglen yn cael ei dilyn a chyflwyno'r Fframwaith Ystyriol o Drawma yng Nghymru sy'n cynnwys pum egwyddor sy'n gysylltiedig â'r trafodaethau cynharach yn y cyfarfod hwn, megis cynlluniau Gwrth-hiliaeth. Fel rhan o'r gwaith hwn, dywedodd fod nod i heddluoedd ddod o hyd i ddull cyson o hyfforddi yn ogystal ag ymgorffori a chynnal y gwaith o ganfod y cynnydd yng Nghymru mewn perthynas â'r Fframwaith Ystyriol o Drawma a sut y gall Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru helpu i ddatblygu hyn ymhellach.

Esboniodd fod yr adroddiad ar gynnal ac ymgorffori Ymarfer sy'n Ystyriol o Drawma a Phrofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod mewn Plismona a Chyfiawnder Troseddol yng Nghymru yn amlinellu nifer o bwyntiau allweddol. Un pwynt yw bod pob ardal heddlu wedi addasu'r dull yn unol ag amgylchiadau lleol gan ystyried canfyddiadau'r adolygiad er mwyn cyd-fynd â'i gofynion ei hun; dywedodd fod llawer o fentrau cadarnhaol gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu unigol, cyfleoedd ariannu, gwaith parhaus gyda chymunedau a hyfforddiant i sicrhau bod Swyddogion a Staff yr Heddlu yn rhan o'r gwaith. Fodd bynnag, nododd fod angen sicrhau bod gwaith rhwng cymunedau a gwasanaethau yn integredig oherwydd y bwlch amser rhwng y Rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd a chyflwyno'r Fframwaith Ystyriol o Drawma er mwyn sicrhau y defnyddir dull cyson. Canmolodd Joanne ymrwymiad y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant i symud y gwaith hwn yn ei flaen gan fod hyn yn cael ei ddatblygu gan y sector Camddefnyddio Sylweddau a'r sector Addysg, yn ogystal ag amrywiaeth o sefydliadau gan gynnwys tai, gyda'r pecyn cymorth TrACE (TrACE - Hyb ACE Cymru), a ddefnyddir i roi cyngor ar sut i fod yn sefydliad sy'n ystyriol o drawma, yn cael ei roi ar waith ar draws y meysydd hyn.

Mynegodd Joanne ei gwerthfawrogiad i Heddlu De Cymru a Heddlu Gogledd Cymru gan eu bod yn arloeswyr o ran rhoi'r hyn a ddysgwyd ar waith yn ogystal â'r dull newydd yng Nghymru o dan y fframwaith ystyriol o drawma, ac mae trafodaethau bellach yn mynd rhagddynt ar y ffordd y gall pob heddlu gyflawni hyn gyda'i gilydd. Dywedodd fod llawer o synergedd gyda'r Rhaglen Gofal Cywir, Person Cywir o ran casglu data, yn ogystal â nodau ac amcanion sicrhau bod unigolion yn cael y cymorth sydd

ei angen arnynt ar yr adeg gywir. Mae hyn yn cyd-fynd â gwaith arall sy'n mynd rhagddo i adolygu'r Dull Ystyriol o Drawma ar gyfer ymdrin â thrawma ar sail hil a dealltwriaeth ddiwylliannol o sut mae'n teimlo i fod yn gweithio mewn sefydliad sy'n ystyriol o drawma gan ei bod yn bwysig ystyried y gweithlu yn ogystal â'r cymunedau a wasanaethir ganddynt.

**5.1.** Croesawodd y Prif Gwnstabl Kelly y gwaith sy'n cael ei wneud a diolchodd i Joanne Hopkins am gyflwyno yng nghyfarfod Grŵp Prif Swyddogion Cymru ym mis Tachwedd; nododd y cytunwyd bod Plismona yng Nghymru yn awyddus i fod yn Ystyriol o Drawma ond yr hoffai gael rhagor o fanylion am beth y byddai hynny'n ei olygu mewn gwirionedd fel y gall ddechrau gyda manylion penodol y cynllun dwy i dair blynedd.

**5.2.** Diolchodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant i Joanne am y diweddariad ar y gwaith parhaus yn y maes hwn. Cydnabu fod dau heddlu wedi ymrwymo i hyn a'i bod yn teimlo bod hyn yn gadarnhaol gan fod pob partner yn cymryd perchnogaeth o hyn felly mae'n falch o glywed yr adborth cadarnhaol.

**6. Unrhyw faterion sy'n codi o gyfarfod Plismona yng Nghymru y dylid eu huwchgyfeirio**
**6.1.** Nododd y Comisiynydd Dunbobbin nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod diwethaf yn anffodus am ei fod yn sâl, ond rhoddodd ddiweddariad cryno ar rai o'r materion a drafodwyd, gan gynnwys yr Ymarfer Ystyriol o Drawma o fewn Plismona yng Nghymru, diweddariad gan y Comisiynydd Michael mewn perthynas â Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ac Adnabod Wynebau.

**6.2.** Ychwanegodd y Comisiynydd Michael y cafwyd anerchiad gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Derek Walker, yn y cyfarfod Plismona yng Nghymru. Adfywiodd hyn yr ymgysylltiad ag Agenda Cenedlaethau'r Dyfodol a'r angen i gryfhau ac atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng Diogelwch Cymunedol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n caniatáu i faterion Diogelwch Cymunedol gael eu huwchgyfeirio a dymuniad Gweinidogion i gryfhau gwaith partneriaeth lleol. Nododd ei fod yn teimlo y gallai ymgysylltu agosach helpu i gryfhau effeithiolrwydd cyfraniad plismona yn yr agendâu lleol. Fodd bynnag, mae hyn yn gysylltiedig â gwaith y Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel, y cynhaliwyd seremoni wobrwyo ar ei gyfer yn ddiweddar a ddangosodd gryfder gwaith partneriaeth ledled Cymru.

Ychwanegodd fod Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid wedi cael sesiwn gyda'r Farwnes Louise Casey ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd Partneriaeth Plismona a'i fod yn teimlo bod hyn wedi dangos penderfyniad arweinwyr o fewn Plismona yng Nghymru i fynd i'r afael â materion hyder y cyhoedd gyda'i gilydd.

**7. Diweddariadau gan bartneriaid yn ôl eithriad**
**7a.** Nododd y Prif Gwnstabl Blakeman y gwaith sy'n cael ei wneud yng Ngogledd Cymru yn dilyn marwolaeth pedwar bachgen ym mis Tachwedd a oedd yn rhan o ddamwain traffig ffyrdd drychinebus a'r effaith yr oedd hyn wedi'i chael ar staff a chymhlethdod yr achos. Dywedodd ei bod yn falch o'r gwaith a wnaed a sut yr ymdriniodd swyddogion â'r teuluoedd mewn ffordd mor dosturiol o dan amgylchiadau mor drist. Ar yr un pryd, roedd llofruddiaeth yn ardal yr heddlu hefyd ynghyd â gwaith i ymdrin ag Achrediad ISO yn y Swyddfa Olion Bysedd. Roedd hwn yn gyfnod anodd iawn i Ymchwilwyr Fforensig i Wrthdrawiadau'r heddlu a'r Swyddfa Olion Bysedd sy'n cynnwys Staff yr Heddlu, ond nododd y bu eu gwaith yn rhagorol.

**7a.1.** Nododd y Prif Gwnstabl Kelly y codwyd pryderon yn Heddlu Gwent mewn perthynas â galwadau 999 gan fod yr heddlu yn trosglwyddo o'i hen bencadlys i adeilad newydd, ond roedd yn falch o ddweud y cafodd y broblem hon ei datrys yn gyflym. Dywedodd fod cyflymder ymateb mewn sefyllfa dda iawn dros y ddau chwarter diwethaf. Gwnaeth sylwadau ynghylch gwrandawiadau camymddwyn hefyd, gan eu bod yn mynd rhagddynt, gan nodi bod hyn yn atgyfnerthu'r gwaith ynglŷn â diwylliant a safonau a drafodwyd eisoes yn y cyfarfod hwn.

**7a.2.** Mynegodd y Prif Gwnstabl Vaughan ei bryderon o ran Heddluoedd Cymru, gan ei fod yn teimlo eu bod yn wynebu cryn anawsterau dros yr ychydig flynyddoedd nesaf oherwydd arian, fel y nodwyd gan Mr Hussain yn ei gyflwyniad cynharach. Esboniodd fod galwadau 999 i Heddlu De Cymru wedi cynyddu 30% dros y deng mlynedd diwethaf ac, erbyn i staff ymdrin â'r galwadau hyn, cânt eu categoreiddio yn rhai risg uchel ac mae hyn yn dangos, yn ei farn ef, fod cymhlethdod yn y system a bod angen gwneud gwaith pellach ar arbedion a'r ffordd y mae heddluoedd yn ystyried risg. Dywedodd y Prif Gwnstabl Vaughan fod angen mynd ati i asesu sut i gyflwyno camau i awtomeiddio prosesau ac felly awgrymodd fod angen gwneud gwaith ar dechnoleg mewn plismona dros yr ychydig flynyddoedd nesaf a sut y cymhwysir hynny i'r llwyth gwaith swmpus. Fodd bynnag, nododd fod nifer yr aelodau o staff yr heddlu eisoes wedi cael ei leihau dros y blynyddoedd diwethaf ac, am fod heddluoedd yn ymrwymedig i niferoedd swyddogion yr heddlu, mae'n creu sefyllfa heriol.

Dywedodd pan gaiff trafodaethau eu cynnal yn y dyfodol am ymateb plismona i ddwyn o siopau, bydd angen ystyried atebolrwydd manwerthwyr o ran eu trefniadau diogelwch eu hunain, gan nodi nad yw plismona yn mynd i gyfaddawdu wrth ymdrin â throseddau fel stelcian ac aflonyddu.

Cytunodd y Prif Gwnstabl Blakeman (arweinydd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ar gyfer troseddau manwerthu) â phwynt y Prif Gwnstabl Vaughan mewn perthynas â throseddau manwerthu, gan nodi bod trafodaethau â manwerthwyr yn mynd rhagddynt ynglŷn â'u cyfrifoldeb. Dywedodd mai nod y cynllun y mae wedi'i lunio mewn perthynas â throseddau manwerthu yw sicrhau nad yw pobl yn ystyried mai'r heddlu sy'n gyfrifol am eu holl broblemau gan fod cyfrifoldeb arnynt i ddiogelu eu staff a'u hasedau mewn ffordd ddibynadwy a phroffesiynol.

**7e.** Cyfeiriodd Ian Barrow at yr adran yn ei bapur diweddaru sy'n nodi pryderon ynghylch capasiti carchardai gan ei fod yn parhau i fod yn broblem sylweddol.

**7f.** Gan gyfeirio at y Bil Dioddefwyr a Charcharorion ym mhapur diweddaru Llywodraeth Cymru, nododd y Comisiynydd Michael fod Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru wedi dod yn ymwybodol na chafodd Cymru ei chynnwys mewn perthynas â'r Ddyletswydd i Gydweithio a all olygu y byddai Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu wedi colli rhai adnoddau o ran gweithredu. Bydd Gary Haggaty a'r Comisiynydd Michael yn cael trafodaeth y tu allan i'r cyfarfod am y pwynt hwn.

**7h.** Crybwyllodd Mark Brace y Gwobrau Cymunedau Mwy Diogel cyntaf a gynhaliwyd i ddathlu gwaith partneriaeth llwyddiannus, er gwaethaf yr heriau y mae Gwasanaethau Cyhoeddus yn eu hwynebu, a diolchodd i bawb am eu cyfraniad.

**8. Unrhyw Fater Arall**
**8.1.** Holodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip a fyddai'n bosibl anfon diolchiadau ganddi hi a'r Prif Weinidog, fel Cyd-gadeiryddion Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru, at staff Plismona yng Nghymru am yr heriau y maent yn eu hwynebu ar y rheng flaen.

**Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf**
Dydd Iau 7 Mawrth 2024 2-4pm